

[Hafan](#)  
[Pori](#)  
[Awduron A-Z](#)  
[Chwiliad testun rhydd](#)  
[Chwiliad testun rhydd](#)

English

Llinell Amser English

**GRUFFYDD ap GWENWYNWYN (bu farw 1286 neu 1287), arglwydd Powys Uchaf**

**Enw:** Gruffydd ap Gwenwynwyn  
**Dyddiad marw:** 1286 neu 1287

**Priod:** Hawys Lestrangle

**Plentyn:** Margaret de la Pole

**Plenty:** Owen de la Pole

**Rhiant:** Margaret Corbet

**Rhiant:** Gwenwynwyn

## Rhyw: Gwryw

## Gaiwedigaeth: arglwydd Powys Uchaf

**Maes gweithgaredd:** Perchnogaeth Tir; Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

**Awdur:** Thomas Jones Pierce

mab hynaf **Gwenwynwyn** a Margaret Corbet, Caws. Plentyn ydoedd pan fu ei dad farw yn alltud yn 1216 a chadwyd ef o'i etifeddiaeth hyd ar ôl marw **Llywelyn I**; yn y cyfamfer treuliodd ei ieuencitid a'i flynyddoedd cynnar fel dyn yn Lloegr, yn ddibynol ar haelioni'r brenin ac ar waddol ei fam. Pan ymstyingodd **David II** i Harri III yn 1241 sefydlwyd Gruffydd gan y brenin (eithr ar delerau cwbl ffwidalaidd) yn arglwyddiaeth tiroedd y teulu yn Arwystli, Cyfeiliog, Mawddwy, Caereinion, y Tair Swydd, a Mochnant Uchaf. Rywbryd cyn yr adeg bwysig hon yn ei yrfa yr oedd wedi priodi Hawys (Hawise), merch **John Lestrangle**, Knockin.

Bu'n ddiysgog yn ei deyrngarwch i'r Goron yn ystod y 10 mlynedd cyntaf yr oedd **Llywelyn** yn ennill awdurdod ynddynt, a bu raid iddo ddioddef colli ei dreftadaeth am yr ail waith a bod yn alltud am yr ail waith hefyd (1257). Yr oedd yn amlwg mai yn erbyn ei ewyllys - a cholli ohono hefyd diroedd Cyfeiliog a oedd yn gorwedd ar ochr ogleddol yr afon Dyfi - y cytunodd, yn 1263, i drosglwyddo ei wrogaeth i **Llywelyn** a chydweithredu â chynllun hwnnw i sefydlu tywysogaeth ffiwaldalaidd Gymreig. Parhaodd y trefniant hwn, a gadarnhawyd yng Nghytundeb Trefaldwyn (1267), hyd 1274, blwyddyn y cynllwyn rhemp yn erbyn bywyd **Llywelyn** a chynllwyn y bu i Hawys a'i mab Owen gyfran ynddo.

O Amwythig, lle y llochesai yn ystod ei drydedd alltudiaeth, parhaodd Gruffydd, efallai gyda rhyw gwmaint o anogaeth gan y brenin, i beri blinder i **Lywelyn** a thrwy hynny i achosi, mewn rhan, ryfel y flwyddyn 1277. Wedi iddo gael ei ail sefydlu yn ei arglwyddiaeth ym Mghwys wedi i **Lywelyn** gael ei ddarostwng, y oedd eito heb gael yn ôl y tïroedd ar du'r gogledd i afon Dyfi; daeth y rhai hyn, bellach, yn destun anghyffwrdd cyfreithliol rhyngddo â thywysog Cymru - a'r sefyllfa gymhleth a ddilynodd yn sgïl yr anghyffwrdd hwnnw yn ffurfio rhan o'r plethiad amgylchiadau a arweiniodd i dorri allan y rhyfel yn 1282; yn y rhyfel hwnnw y oedd Gruffydd gyda'r pwysicaf ymysg pleidwyr Edward.

Bu fyw am bum mlynedd wedi'r Goncwest, gan farw rhywbryd rhwng 21 Chwefror 1286 a diwedd 1287. Fe'i goroeswyd gan ei wraig (bu farw 1310), chwe mab, ac un ferch. Aeth rhan fwyaf yr etifeddiaeth i'w fab hynaf, OWEN DE LA POLE, ac, yn nes ymlaen, yn 1309, i [John Charlton](#), gwr [Hawise](#), wyres Gruffydd.

## Awdur

**Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)**

## Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), Cyf. II

Oxford Dictionary of National Biography

*Littere Wallie* (1940)

*Calendar of Ancient Correspondence concerning Wales (1935)*

*The Welsh Assize Roll, 1277â€“1284* (1940)

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Gruffydd ap Gwenwynwyn**

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q3072975

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.



### Ardull APA

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu



LLYFRGELL  
THE NATION

